

Datblygu Cymunedau Conwy

Mae pob cymuned yn cael y cyfle i ddatblygu eu Cynllun Lle eu hunain.

Caiff cynlluniau lle eu gwneud gan gymunedau ar gyfer cymunedau. Gallant ganolbwyntio ar Dref neu ardal cyngor cymuned, un pentref neu grŵp o bentrefi.

Chi sy'n deall:

- eich cymuned
- y bobl
- yr hanes
- beth sy'n gweithio - a beth sydd ddim yn gweithio.

Sefydlwch dîm ardal gymunedol – cynhwyswch eich cymuned – rhwng wybod iddyn nhw beth sy'n digwydd. Dywedwch wrth fusnesau a sefydliadau lleol, cynhaliwch ddigwyddiadau, defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol. Bydd diddordeb gan fwy o bobl nag a feddylwch.

Dysgwch fwy am eich lle – casglwch cymaint o wybodaeth ag y gallwch – siaradwch â'ch cymuned – cynhaliwch ddigwyddiadau i ddysgu mwy am yr hyn sy'n bwysig i bobl. Cewch lun o'r hyn sydd ei angen, ym mhle a pham.

Gwerthuswch eich lle – edrychwch ar eich Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythion. Gwnewch yn siŵr fod pobl yn siarad gyda mwy o bobl – cynhwyswch aelodau'r cyngor – busnesau bach – busnesau mawr – pobl ifanc – rhai newydd i'r ardal a rhai sydd wedi bod yno erioed. Fe fyddan nhw'n dweud beth sydd ar eu meddwl a helpu eich gwerthusiad.

Gwnewch gynllun drafft o'ch lle – defnyddiwch eich tystiolaeth i ddechrau eich cynllun – cytunwch ar 'weledigaeth' – gosodwch y nodau – nodwch y blaenoriaethau – mapiwch y camau i gyrraedd yno. Bydd yn waith caled ond bydd yn werth yr ymdrech.

Cytunwch ar a dechreuwch eich cynllun lle – i weld eich cynllun ar waith. Gwnewch yn siŵr bod gennych gytundeb ysgrifenedig – nodwch rolau a'u cyfrifoldebau. Cadwch lygad ar yr hyn sy'n digwydd – newidiwch rannau o'r cynllun os oes angen a daliwch ymlaen i gynnwys pobl. Rydych chi'n datblygu eich cymuned!

Datblygwch y lle rydych yn byw.

Cymerwch ran yng Nghynllun Lle eich cymuned chi.

Ydych chi am sgwrsio am Gynlluniau Lle a p'un a ddylai eich tref gael un?

Gall y Tîm Cynlluniau Lle eich arwain a'ch cynorthwyo chi. :

 cynlluniau@conwy.gov.uk

 01492 577683

Dysgwch fwy am Ddatblygu Cymunedau Conwy a lawrlwythwch y pecyn gwaith:

 www.conwy.gov.uk/CynlluniauLleoedd

